YR ATODLEN

DARPARU GWYBODAETH AM DDISGYBLION UNIGOL

# RHAN 1

## Pob Disgybl

**1.** Yr wybodaeth ganlynol am y disgybl —

(a) Rhif unigryw cyfredol y disgybl, ac os bu gan yr ysgol rif unigryw disgybl blaenorol ar gyfer y disgybl hwnnw, y Rhif blaenorol;

(b) cyfenw;

(c) enw cyntaf y disgybl, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(ch) enw canol y disgybl, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(d) rhyw;

(dd) dyddiad geni;

(e) grŵp ethnig;

(f) hunaniaeth genedlaethol;

(ff) dyddiad derbyn y disgybl i'r ysgol; a

(g) grŵp blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol yr addysgir y disgybl ynddo.

**2.** Cod post y cartref lle mae'r disgybl fel arfer yn preswylio.

**3.** A yw'r wybodaeth am grŵp ethnig y disgybl a ddarparwyd yn rhinwedd yr Atodlen hon yn cael ei darparu gan —

(a) y disgybl;

(b) rhiant;

(c) yr ysgol;

(ch) cyn ysgol; neu

(d) unrhyw ffynhonnell arall.

**4.** Pa mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg.

**5.** A yw'r disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartref ac, os felly, gyda phwy.

**6.** A yw'r disgybl yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith.

**7.** A gafodd yr wybodaeth am lefel rhugledd y disgybl yn y Gymraeg a faint o Gymraeg y mae'r disgybl yn ei siarad gartref a ddarparwyd yn rhinwedd y Rhan hon ei darparu gan —

(a) y disgybl;

(b) rhiant;

(c) yr ysgol;

(ch) cyn ysgol; neu

(d) unrhyw ffynhonnell arall.

**8.** A yw'r disgybl yn astudio unrhyw bwnc, heblaw'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, drwy gyfrwng y Gymraeg.

**9.** A yw'r disgybl, yn unol ag adrannau 512(3) a 512ZB o Ddeddf 1996(**1**), wedi gwneud cais ac wedi'i gael yn gymwys i gael prydau am ddim yn yr ysgol.

**10.** A yw'r disgybl, yn unol ag adrannau 512(1) a 512ZB o Ddeddf 1996, wedi gwneud cais ac wedi'i gael yn gymwys am laeth am ddim yn yr ysgol.

**11.** A oes gan y disgybl anghenion addysgol arbennig ac, os felly, cadarhnad o —

(a) brif angen y disgybl ac unrhyw angen eilaidd a nodwyd; a

(b) y math o ddarpariaeth AAA sy'n rhan o'r ymagwedd raddedig a fabwysiadwyd yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru"(**2**), a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002, sy'n cael ei wneud i'r disgybl hwnnw.

**12.** Lle mae'r disgybl, hyd eithaf gwybodaeth y corff llywodraethu, yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y ffaith honno ac enw'r awdurdod lleol hwnnw.

**13.** A yw'r disgybl, hyd eithaf gwybodaeth y corff llywodraethu, wedi bod yn blentyn sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol tra bu ar Gofrestr yr ysgol, ac, os felly, enw'r awdurdod lleol yr oedd y disgybl yn derbyn gofal ganddo yn fwyaf diweddar.

**14.** Yn achos ysgol arbennig nad yw'n ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty a yw'r disgybl yn byrddio yn yr ysgol ac os felly, a yw'r disgybl yn byrddio am saith noson yr wythnos neu am lai na saith noson yr wythnos.

**15.** A yw'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol neu fwy nag un ysgol, a lle mae'r disgybl wedi'i gofrestru fel disgybl mewn mwy nag un ysgol, a yw'r wybodaeth yn cael ei llunio gan yr ysgol y mae'r disgybl yn mynd iddi am y rhan fwyaf o'i amser.

**16.** A yw'r disgybl yn ddisgybl rhan-amser, ac at ddibenion y paragraff hwn, ystyr "rhan-amser" yw bod y disgybl yn mynychu llai na deg sesiwn ysgol mewn unrhyw wythnos pan fydd yr ysgol yn cyfarfod.

**17.** Yn achos ysgol nad yw'n ysgol arbennig, a yw'r disgybl yn cael addysg —

(a) mewn dosbarth meithrin;

(b) mewn dosbarth arbennig a ddynodwyd felly gan yr awdurdod addysg lleol neu a drefnwyd felly gan yr ysgol; neu

(c) mewn dosbarth prif ffrwd nad yw wedi'i ddynodi yn ddosbarth arbennig gan yr awdurdod addysg lleol neu a drefnwyd fel dosbarth arbennig gan yr ysgol.

(**1**) Amnewidiwyd adrannau 512 a 512ZB, ynghyd ag adran 512ZA, gan adran 512 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 201(1).

(**2**) ISBN 0 7504 27574.